27 Mawrth, 2019

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i chi am eich cefnogaeth o'r Ysgol a'i pholisïau. Teimlwn fod ceisio sicrhau cysondeb ar gyfer ein holl ddisgyblion yn beth allweddol a, gan ystyried hyn, hoffwn eich hatgoffa am rai pwyntiau allweddol parthed y polisi gwisg ysgol. Bwriad hyn yw ceisio osgoi gwrthdaro diangen gyda disgyblion sy'n gwisgo eitemau o ddillad sy'n groes i bolisi'r ysgol, a cheisio helpu rhieni i beidio a gwario arian ar ddillad a allai fod yn ddrud ac sydd ddim yn cydymffurfio gyda'r polisi gwisg ysgol. Er bod y wybodaeth isod wedi ei rannu gyda rhieni eisoes, rydym am bwysleisio pwysigrwydd ystyried y wybodaeth yma. Rydym yn cael mwy a mwy o achosion ble mae disgyblion yn dod i'r ysgol yn y wisg anghywir, a hoffwn osgoi hyn gan ei fod yn creu gwrthdaro rhwng yr ysgol a'r disgybl. Does yr un ohonom yn dymuno hyn ac mae'n creu dechrau negyddol i ddiwrnod pawb sydd yn ymwneud â materion o'r math yma.

Esgidiau Ysgol: Esgidiau du plaen (dim logo lliw), dim 'boots'.

Trowsus Ysgol: trowsus du plaen - defnydd traddodiadol. Nid oes hawl gwisgo 'jeans' na 'leggings' o gwbl.

Sgert Ysgol: sgert ddu plaen - defnydd traddodiadol ac nid defnydd sy'n ymestyn. Dylai'r sgert ddim bod mwy na thair modfedd uwch ben y ben-glin.

'Hoodies': Nid yw 'Hoodies' yn rhan o'r polisi gwisg ysgol. Mewn ymateb i adborth gan rieni, rydym yn cadw siwmper ysgol a chardigan fwy trwchus mewn stoc bellach ac rydym yn gwerthu 'fleece' ysgol hefyd. Felly, fe ddylai fod rhywbeth at ddant pawb. Rydym yn annog disgyblion i wisgo cotiau i'r ysgol, yn enwedig ym misoedd y gaeaf a gofynnwn i'r rhain fod yn ddu, nefi neu lwyd tywyll yn hytrach na lliwiau llachar. Os oes rhaid i'ch plentyn i gerdded adref, unrhyw bellter, yn y tywyllwch rydym yn argymell defnyddio fest 'high-vis' sy'n sicrhau fod unrhyw fodurwyr sy'n gyrru heibio yn eu gweld.

Bydd unrhyw 'Hoodie' sy'n cael ei wisgo ar gampws yr ysgol yn cael ei gymryd ymaith hyd nes diwedd y dydd.

Gemwaith: Caniatawn un fodrwy, un pâr bach o glustdlysau, studs neu faint 'sleeper' plaen ac oriawr. Rhaid tynnu pob darn o emwaith ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol a'r disgyblion sy'n gwbl gyfrifol am benderfynu dod â'r eitemau yma i'r ysgol.

Nid ydym yn caniatáu stỳds trwyn nac unrhyw fathau eraill o 'piercings'.

Mae'n ofynnol i ddisgybl sy'n mynd yn groes i'r cod yma i dynnu unrhyw eitem o emwaith; bydd yr eitemau yn cael eu cymryd ymaith hyd nes bydd rhieni yn eu casglu o'r ysgol.

Os ydych yn penderfynu caniatáu 'piercings' ychwanegol, sicrhewch os gwelwch yn dda, fod eich plentyn yn eu tynnu nhw allan cyn dod i'r ysgol. Ni fydd disgyblion sy'n gwisgo gwisg anaddas ar gyfer gwersi yn cael mynychu gwersi hyd nes bod y mater wedi ei ddatrys. Unwaith eto, mae'n bwysig pwysleisio mai, fel ysgol, dyma'r peth olaf yr ydym am ei wneud gan ein bod yn rhoi pwyslais enfawr ar bresenoldeb da i'r ysgol ac i wersi.

Colur: Fe fydd angen i ddisgyblion i waredu unrhyw golur eithafol. Nid oes hawl gwisgo farnais ewinedd lliw na ewinedd ffug.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i atgoffa rhieni a disgyblion am bwysigrwydd cael yr offer cywir yn yr ysgol. Dylai fod ysgrifbinnau, pensiliau, pren mesur, dilewyr, cyfrifianellau ac onglyddion gan bob disgybl, er mwyn sicrhau eu bod yn

gallu gweithio ymhob gwers. Hoffwn atgoffa rhieni hefyd fod gan yr ysgol bolisi ‘dim ffôn symudol yn yr ysgol’ - os oes angen cysylltu gyda’ch plentyn yn ystod y dydd, ffoniwch brif swyddfa’r ysgol os gwelwch yn dda.

Rydym yn falch iawn o’m hysgol a’n disgyblion ac yn credu’n gryf fod safonau uchel o wisg ysgol, ymddygiad, bod yn barod gyda’r deunydd cywir ar gyfer gwersi a phresenoldeb cyson, yn rhoi cyfle i bob disgybl i ddysgu a chyflawni eu gorau ym mhob gwers. Diolch yn fawr i chi am eich amynedd a’ch dealltwriaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Wyn.

(Pennaeth)

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

27 March, 2019

Dear Parents and Guardians,

Many thanks for your continued support of the school and its policies. We feel consistency is a critical thing to try and achieve for all of our pupils. With this in mind please could I take this opportunity to remind you of some key parts of our school uniform policy. The intention of this is to avoid unnecessary confrontations with pupils not dressed in accordance with school uniform policy and to avoid parents spending money on potentially expensive items which do not conform to the uniform policy. Although the information below has been shared with parents previously, may we please stress how important it is to take heed of the information. We are having increasing incidences of pupils coming to school in the incorrect uniform and we would very much like to avoid this as it puts the school at odds with the pupil. This is not what any of us would wish for and is a negative start to the day for all concerned.

School shoes: Plain black shoes (no coloured logo), no boots.

School trouser: plain black trousers – these should be traditional material. Jeans and leggings are strictly forbidden.

School skirt: plain black skirt in traditional material and **not** stretch fabric. The skirt should not be more than three inches above the knee.

Hoodies: Hoodies are not part of the school uniform policy. In response to parent feedback we now stock a more hardwearing school jumper and cardigan and also sell a school fleece therefore there is something for everyone. We encourage pupils to wear coats to school particularly in the winter months, and ask that these are black, navy or dark grey rather than bright colours. If you child has to walk any distance in the dark when going home from school we recommend high-vis vests to ensure that they can be seen by passing motorists.

Hoodies worn on the school campus will be confiscated until the end of the school day.

Jewellery: One ring and one pair of small, plain stud or sleeper size earrings and a watch are allowed. All jewellery must be removed for PE activities and is brought into school entirely at the pupil's own risk.

Nose studs and all other types of piercing are not allowed.

Pupils will be required to remove any items of jewellery which contravenes this code; they will be confiscated until parents collect them from school.

If you do decide to allow your child to have additional piercings please ensure that they are removed for school. Pupils not correctly attired for lessons will not be allowed to attend lessons until the issue has been fully resolved. Again, I should stress that this is absolutely the last thing we want as a school as we all place great emphasis on good attendance to school and to lessons.

Make Up: Pupils will be required to remove any excessive make up. Nail varnish and false nails are not allowed.

I would like to take this opportunity to remind parents and pupils of the importance of having the correct equipment in school. All pupils should have pens, pencils, rulers, erasers, calculators and protractors to enable them to fully engage with every lesson. May we also remind parents that we have a 'no mobile phone' policy in school – should you wish to contact your child during the school day could you please telephone the main desk.

We are very proud of our school and of our pupils and believe that high standards of uniform, behaviour, being properly equipped and attending regularly give each and every one of our pupils the very best chance of learning well and achieving their very best. Thank you all very much in advance of your anticipated support and understanding.

Yours sincerely,

Jane Wyn.

(Headteacher)